,

**Adroddiad i'r:** Cyngor Sir

**Dyddiad y Cyfarfod:** 23 Mai 2017

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Gary Williams, Swyddog Monitro

**Awdur yr Adroddiad:** Lisa Jones, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/ Dirprwy Swyddog Monitro

**Teitl:** Penodiadau Aelodau Lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Safonau

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn trafod parhad penodiad dau Aelod lleyg (annibynnol).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae penodiadau i'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Penodi Mr Ian Trigger i'r Pwyllgor Safonau am gyfnod sy'n dod i ben ar ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2022.

3.2 Penodi Mr Paul Witham i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am gyfnod sy'n dod i ben ar ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2022.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Penodiad i'r Pwyllgor Safonau

Mae Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau 2001, fel y'u diwygiwyd, (y Rheoliadau) yn llywodraethu aelodaeth a thrafodion y Pwyllgor Safonau. Nid oes angen i'r Pwyllgor Safonau fod yn wleidyddol gytbwys. Mae'n rhaid i Bwyllgor Safonau gael rhwng pump a naw aelod gan gynnwys aelodau lleyg annibynnol, Cynghorwyr Sir a chynrychiolaeth o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Mae'n rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelodau lleyg annibynnol o hyd ac mae'n rhaid i'r mwyafrif o'r rhai sy'n bresennol fod yn aelodau lleyg annibynnol er mwyn i'r cyfarfod fod â chworwm.

4.2 Mae saith yn aelod o Bwyllgor Safonau'r Cyngor hwn, sy'n cynnwys y canlynol: dau Gynghorydd Sir; un aelod o Gyngor Cymuned; a phedwar aelod lleyg annibynnol.

4.3 O dan y rheoliadau, ni chaiff aelod lleyg fod ar y Pwyllgor Safonau am fwy na dau gyfnod yn y swydd. Dyma, felly, fyddai cyfnod olaf y penodai arfaethedig, pe bai'n cael ei ailbenodi.

4.4 Recriwtiwyd yr Aelod sydd wedi'i gynnig i gael ei ailbenodi drwy hysbyseb cyhoeddus ac fe'i dewiswyd o blith nifer o ymgeiswyr gan Banel Penodiadau'r Cyngor.

4.5 <u>Penodiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</u>

4.6 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) yn gofyn bod y Cyngor yn penodi Pwyllgor Archwilio. Mae'n rhaid i aelodaeth y Pwyllgor hwnnw gynnwys o leiaf un aelod lleyg. Ni all y Pwyllgor fod â mwy nag un rhan o dair o'i aelodau'n aelodau lleyg.

4.7 Ar 15 Mai 2012, cytunodd y Cyngor i ddynodi'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Cytunodd y Cyngor hefyd y dylai un aelod o'r Pwyllgor fod yn aelod lleyg.

4.8 Hysbysebodd y Cyngor swydd aelod lleyg yn y wasg leol drwy hysbyseb ar y cyd â phedwar awdurdod arall yng ngogledd Cymru. Derbyniwyd tri chais am swyddi gwag Cyngor Sir Ddinbych.

4.9 Dewiswyd yr aelod lleyg gan aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae Pwyllgor Safonau sy'n gwbl weithredol a chynrychioliadol ac sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn cynorthwyo i ategu gwaith i weithredu swyddogaethau democrataidd y Cyngor.

5.2 Yn ôl y Mesur, mae penodi aelod lleyg i fod ar y Pwyllgor yn orfodol. Byddai methu â phenodi aelod lleyg yn gwneud trafodion y Pwyllgor yn annilys.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd hawl gyfreithiol gan yr aelod lleyg, o dan adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, i dâl dyddiol ac i hawlio costau teithio.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes unrhyw oblygiadau o ran lles o ganlyniad i'r penderfyniad hwn. Cynhaliwyd ymarfer recriwtio cyhoeddus, agored ar gyfer y penodiadau hyn. Nid yw'r penderfyniad yn effeithio ar les.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Nid oes unrhyw ofyn statudol am ymgynghori ar y penodiadau a geisir drwy'r adroddiad hwn. Yn statudol, mae angen hysbysebu'n gyhoeddus ar gyfer aelodau annibynnol ar y Pwyllgorau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bychain yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad ac fe fyddant yn cael eu talu o adnoddau sy'n bod eisoes.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

O ran y Pwyllgor Safonau, mae'n amod yng Nghyfansoddiad y Cyngor bod angen pedwar aelod lleyg. Y risg o beidio â phenodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau yw y gall llai o aelodau gynyddu'r tebygolrwydd na fydd gan y Pwyllgor gworwm.

Yn ôl y Mesur, mae penodi aelod lleyg i fod ar y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn orfodol. Byddai methu â phenodi aelod lleyg yn gwneud trafodion y Pwyllgor yn annilys.

## 11. Grym i wneud y Penderfyniad

Adrannau 81 ac 82 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd.